

# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Rejuva, Rhuddlan

Dyddiad arolygu: 10 Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	19
4.	Beth nesaf? .....	22
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol .....	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella .....	25

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Rejuva, Fondella Buildings, Ffordd Fawr, Rhuddlan, y Rhyl LL18 2TU, ar 10 Rhagfyr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau aelod o staff AGIC. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod Rejuva yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion a gwelsom fod prosesau addas ar waith i gefnogi hyn.

Roedd yr amgylchedd yn groesawgar, ac roedd y tîm yn cynnwys staff hirsefydlog a oedd wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni eu rolau.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau a rheoliadau perthnasol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd cadarnhaol
- Roedd dulliau da ar waith er mwyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth a hanes meddygol y cleifion
- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd y tîm o staff yn hirsefydlog ac yn ymroddedig.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Llunio gweithdrefnau ysgrifenedig penodol ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Ystyried pa mor aml y caiff y peiriant IPL ei wasanaethu
- Mynd i hyfforddiant marsial tân.

Dylech gyfeirio at Atodiad A i weld tabl llawn o'r argymhellion a wnaed.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Mae Rejuva wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Thechnoleg Goleuni Pwls Dwys (IPL)<sup>1</sup> yn Rejuva, Fondella Buildings, Ffordd Fawr, Rhuddlan, y Rhyl LL17 2TU.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi chwe aelod o staff, sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a phum defnyddiwr IPL<sup>2</sup> awdurdodedig.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i gleifion dros 18 oed, sy'n cynnwys y canlynol:

- Gwaredu blew
- Triniaeth pigmentiad
- Gwaredu / lleihau gwythiennau edau
- Adfywio'r croen
- Triniaeth acne

---

<sup>1</sup> Technoleg ffynhonnell goleuni sbectrwm eang yw IPL a chaiff ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gynnal triniaethau amrywiol ar y croen at ddibenion aesthetig a therapiwtig.

<sup>2</sup> Cyfeirir at aelodau o'r staff sy'n perfformio triniaethau neu'n gweithredu'r peiriant laser fel defnyddiwr awdurdodedig.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod eu hymgyngoriadau cychwynnol a'u triniaethau.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth ddigonol cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Fodd bynnag, rhaid i'r gwasanaeth lunio polisi cydsyniad i helpu'r gwasanaeth a darpar gleifion pan fyddant yn ymgynghori ar yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 8 holiadur. Roedd hanner yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r clinig ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, a nododd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn 'ardderchog'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r gwasanaeth a gefais wedi bod yn wych. Mae'r staff wedi bod yn fanwl iawn ac maen nhw'n wybodus iawn. Caf fy nhrin ag urddas, ac maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n gyfforddus bob amser. Rwy'n argymhell eu gwasanaethau yn gryf"*

*"Gwasanaeth gwych. Amgylchedd croesawgar a chynnes"*

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom dystiolaeth bod y clinig yn gofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, ac yn holi a oedd unrhyw newidiadau wedi bod mewn unrhyw apwyntiad dilynol. Gwelsom hefyd fod hanes meddygol yn cael ei lofnodi gan y claf a'r gweithredwr, sy'n helpu i sicrhau y caiff y triniaethau priodol eu darparu mewn modd diogel.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth wedi nodi eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

## Urddas a pharch

Er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth bob amser.

Er mwyn sicrhau urddas y cleifion cyn y driniaeth ac ar ei hôl, dywedwyd wrthym y rhoddir tywel i'r cleifion er mwyn iddynt newid, yn breifat os bydd angen, a bod yr ystafell yn cael ei chloi drwy gydol pob cwrs o driniaeth. Gwelsom fod cloeon wedi'u gosod ar yr ystafell driniaeth, a bod arwyddion 'dim mynediad' wedi'u harddangos er mwyn gwarchod urddas y cleifion ymhellach.

Roedd polisi ar waith er mwyn galluogi cleifion i ddod â hebryngwr ar gyfer rhan o'r driniaeth neu'r driniaeth i gyd. Pe bai'n well gan y claf fod yr hebryngwr yn aros yn yr ystafell drwy gydol y driniaeth, gwelsom fod sbectol diogelwch ychwanegol ar gael.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin â pharch gan y staff, ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

## Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, gan gynnwys y gwahanol driniaethau a oedd ar gael, y costau, y risgiau a'r manteision.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth, a hynny am fod y gwasanaeth yn darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau. Mae hyn yn cynnwys Canllaw i Gleifion, sydd ar gael i'r cleifion fynd adref gyda nhw a'i darllen yn eu hamser eu hunain. I ategu hyn, ceir tudalen we fanwl sy'n amlinellu'r triniaethau a gynigir.

Gwnaethom gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cael triniaeth. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth ynghylch risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a ddymunir.

Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cael cydsyniad ar sail gwybodaeth o safon dda, a gwnaethom gadarnhau y ceir hyn cyn y driniaeth gychwynnol ac mewn unrhyw sesiynau triniaeth dilynol. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael cyngor ôl-ofal ar lafar ar ôl cael triniaeth, a gwelsom dystiolaeth o'r wybodaeth a roddir i'r cleifion.

Byddem yn argymhell y dylai'r gwasanaeth lunio polisi cyson sy'n ymwneud â threfniadau, megis y ffordd y ceir cydsyniad gan y cleifion, yr hyn sy'n gyfystyr â chydsyniad dilys a'r ffordd y rheolir triniaeth ar gyfer y sawl nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth lunio polisi cyson ar gyfer trin y cleifion.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd Canllaw i Gleifion ar gael i'r cleifion fynd adref gyda nhw i'w ddarllen yn eu hamser eu hunain cyn ymrwymo i unrhyw gwrs o driniaeth. Roedd y canllaw, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben<sup>3</sup>, yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gwasanaethau a oedd ar gael.

At hynny, mae gan y gwasanaeth wefan gynhwysfawr sy'n amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael ac amrywiaeth o wybodaeth ategol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd fod y staff yn gwrando arno yn ystod ei apwyntiad a'i fod yn gallu siarad yn ei ddewis iaith. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym hefyd ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei

---

<sup>3</sup> Mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio datganiad o ddiben a ddylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

gynnwys mewn penderfyniadau ynghylch ei driniaeth, lawn gymaint ag yr oedd am gael ei gynnwys.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Caiff hanes meddygol y cleifion ei nodi fel rhan o'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau addasrwydd eu dewis o driniaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da, gan gynnwys nodiadau ar ffurf copi caled a oedd yn cael eu cadw'n gyson yn ffeiliau'r cleifion.

Gwelsom hefyd fod cofrestr gyfredol o driniaethau cleifion ar ffurf copi caled yn cael ei chadw. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i fonitro'r triniaethau a ddarperir ac ymateb i unrhyw ddigwyddiadau a all godi. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth gynnwys colofn yn ei gofrestr o driniaethau i gofnodi unrhyw effeithiau andwyol neu ddigwyddiadau o ganlyniad i driniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf clwt er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a blew sydd ganddo cyn iddo gael triniaeth.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Rhaid i'r gwasanaeth gynnwys colofn yn ei gofrestr o driniaethau i gofnodi unrhyw effeithiau andwyol neu ddigwyddiadau o ganlyniad i driniaeth.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r gwasanaeth ar ddau lawr, ac mae'r ystafell driniaeth laser ar lawr cyntaf yr adeilad. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod hyn yn glir i ddarpar gleifion yn ei ganllaw i gleifion, a gall argymhell gwasanaethau amgen i ddarpar gleifion y gall hyn effeithio arnynt.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion**

Gwelsom fod y canllaw i gleifion yn cyfeirio at arolwg boddhad cleientiaid blynyddol. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd hyn wedi cael ei gynnal. Yn lle hynny, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn rhoi adborth anffurfiol ar lafar yn aml sy'n cael ei gofnodi yn eu ffeiliau, a bod y gwasanaeth yn gweithredu ar sail yr adborth hwn lle y bo'n briodol. Dywedwyd wrthym hefyd fod y cleifion yn gallu rhoi adborth a llunio

adolygiadau o'r gwasanaeth dros y cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu monitro gan y rheolwr cofrestredig.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod yn ymwybodol bod ei farn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig yn cael ei cheisio.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth naill ai ailddechrau cynnal yr arolwg boddhad blynyddol neu ddiweddarau'r canllaw i gleifion i egluro trefniadau ar gyfer rhoi adborth.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd y gwasanaeth yn groesawgar ac yn lân yr olwg. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gwasanaeth roi gweithdrefnau penodol, ysgrifenedig ar waith ar gyfer trefniadau atal a rheoli heintiau.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol mewn sawl maes megis diogelu, hyfforddiant peiriannau IPL a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer defnyddio cyfarpar IPL yn ddiogel. Fodd bynnag, rhaid i'r gwasanaeth ailystyried anghenion hyfforddiant y staff ym meysydd diogelwch tân a chymorth cyntaf.

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion mewn meysydd eraill y mae'n rhaid i'r gwasanaeth eu hystyried er mwyn hybu'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn llawn.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod apwyntiadau wedi cael eu gwneud ar gyfer Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) a gwiriadau bob pum mlynedd o wifrau trydanol yr adeilad ychydig ar ôl dyddiad yr arolygiad. Er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn ddiogel i'w defnyddio, mae'n rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad ysgrifenedig i AGIC ar ôl i'r tasgau hyn gael eu cwblhau.

Gwelsom dystiolaeth i'r dystysgrif nwy ddiweddaraf gael ei chyflwyno yn 2016. Gan fod hyn yn ofyniad blynyddol yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff gwiriad diogelwch nwy ei drefnu ac y caiff AGIC gadarnhad ysgrifenedig ar ôl i hyn gael ei gwblhau.

O ran diogelwch tân, roedd labeli gwasanaethu cyfredol gan bob dyfais diffodd tân ac roedd contract cynnal a chadw dilys ar waith gyda'r gwasanaeth tân.

Gwelsom hefyd mai yn 2017 y cafodd asesiad risg tân ei gwblhau ddiwethaf, ac na chafodd unrhyw gamau eu nodi. Er hyn, byddem yn argymhell y dylid adolygu'r asesiad risg tân bob blwyddyn. Fel rhan o unrhyw asesiad risg newydd, dylai'r gwasanaeth ailystyried yr arwyddion allanfa tân / grisiau tân gan nad oedd unrhyw arwyddion yn ardal yr ystafell driniaeth.

Byddem yn argymhell ymhellach y dylai o leiaf un aelod o'r staff gwblhau cwrs hyfforddiant diogelwch tân ffurfiol, a rhannu'r wybodaeth hon â'r tîm ehangach wedyn. Dylid hefyd gofnodi pryd a ble y cynhaliwyd yr hyfforddiant, pwy oedd yn bresennol a'r hyn a drafodwyd. Dylid cynnal ymarferion tân bob chwe mis a chadw cofnod ohonynt hefyd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf, ond nad oedd wedi cwblhau cwrs gloywi er mwyn sicrhau bod ei sgiliau a'i wybodaeth yn gyfredol. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn bwriadu mynd ar gwrs cymorth cyntaf ychydig ar ôl dyddiad yr arolygiad. Rhaid anfon cadarnhad o bresenoldeb yn y cwrs i AGIC ar ôl i hyn gael ei gwblhau.

Gwnaethom hefyd edrych ar gynnwys un o'r pecynnau cymorth cyntaf a oedd ar gael a gwelsom fod nifer o'r eitemau wedi mynd heibio i'w dyddiadau darfod. Rhaid i'r gwasanaeth edrych ar gynnwys yr holl becynnau a chael eitemau newydd, lle y bo angen.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod profion PAT a gwiriad o wifrau'r adeilad wedi cael eu cwblhau.

Rhaid i'r gwasanaeth roi tystysgrif diogelwch nwy newydd i AGIC.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff ei asesiad risg tân ei adolygu bob blwyddyn, gan gynnwys adolygu'r arwyddion tân ym mhob rhan o'r safle.

Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod hyfforddiant marsial tân wedi'i gwblhau.

Rhaid i'r gwasanaeth gynnal ymarferion tân bob chwe mis a chadw cofnod o'r rhain.

Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod cwrs cymorth cyntaf (llawn neu loywi) wedi'i gwblhau.

Rhaid i'r gwasanaeth adolygu cynnwys yr holl becynnau cymorth cyntaf ar y safle.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân yr olwg ac yn ddeniadol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y safle yn lân.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi iechyd a diogelwch lefel uwch ar waith, a disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau (IPC) a oedd ar waith yn y gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau cysondeb a helpu i liniaru risgiau posibl, byddem yn argymhell y dylid nodi'r trefniadau hyn mewn gweithdrefnau ysgrifenedig penodol. Er enghraifft, dylid cynnwys trefniadau ar gyfer hylendid dwylo a rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer glanhau cyfarpar ac ardaloedd triniaeth.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo priodol a thoiledau ar gael. Gwelsom hefyd fod bin gwastraff clinigol priodol ar gael yn yr ystafell driniaeth, a thystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer gwastraff cyffredinol a chlinigol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth lunio cyfres o drefniadau ysgrifenedig penodol ar gyfer atal a rheoli heintiau (IPC).

## Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i oedolion dros 18 oed yn unig. Gwelsom dystiolaeth o bolisi sy'n gwahardd rhoi triniaeth neu wasanaethau i unigolion o dan 18 oed yn benodol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi diogelu oedolion ar waith gyda gweithdrefnau clir i'w dilyn petai unrhyw bryderon am ddiogelu unigolion. Roedd hyn yn cynnwys pwyntiau cyswllt awdurdodau lleol, rolau a chyfrifoldebau'r staff unigol, a chyfarwyddyd ynglŷn ag arwyddion cam-drin.

Gwelsom dystiolaeth fod pob gweithredwr laser wedi cwblhau lefel briodol o hyfforddiant diogelu. Byddem yn cynghori'r gwasanaeth y dylai pob gweithredwr laser gwblhau hyfforddiant newydd neu hyfforddiant gloywi ym mis Ionawr 2020 er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu, a bod y staff yn hyderus i ymateb i faterion sy'n ymwneud â diogelu, pe baent yn codi.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth bod protocolau triniaeth priodol ar waith, a oedd wedi cael eu goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom hefyd fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a rheolau lleol<sup>4</sup> a oedd yn disgrifio sut i weithredu'r peiriannau'n ddiogel. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi arolygu'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd pob gweithredwr wedi'u llofnodi. Rhoddir gwybod i'r gwasanaeth y dylai fod contract di-dor gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ganddynt, ac ni ddylai fod unrhyw fylchau.

Gwelsom dystiolaeth yn cadarnhau mai yn 2016 y cafodd y peiriant IPL ei wasanaethu ddiwethaf. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cadarnhau pa mor aml y dylid gwasanaethu'r peiriant, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Ar ôl yr arolygiad, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd angen gwasanaethu'r peiriant mor aml am nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn, ond serch hynny roedd wedi trefnu i'r peiriant IPL gael ei wasanaethu. Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC ar ôl i'r peiriant gael ei wasanaethu.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod y peiriant IPC wedi cael ei wasanaethu ar ôl iddo gael ei gwblhau.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod pob gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth<sup>5</sup> a hyfforddiant y gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriant IPL.

---

<sup>4</sup> Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/474136/Laser\\_guidance\\_Oct\\_2015.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf)

<sup>5</sup> Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn rhoi sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser ac IPL yn ddiogel ac yn effeithiol.

Byddem yn cynghori'r gwasanaeth y dylai pob gweithredwr laser fynd i sesiwn hyfforddiant gloywi ar Graidd Gwybodaeth ym mis Ionawr 2020 er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth o ran defnyddio'r peiriannau laser / IPL yn gyfredol.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn llygaid ar gael i gleifion, gweithredwyr a hebryngwyr. Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr boddhaol, ond roedd angen ei lanhau. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cyfarpar amddiffyn y llygaid yn cael ei lanhau'n rheolaidd a'i archwilio i weld a oes unrhyw ddifrod iddo. Gwelsom hefyd fod gorchuddion llygaid yn cael eu defnyddio sy'n cynnig dull amddiffyn ychwanegol i'r cleifion sy'n cael triniaeth laser i'r wyneb.

Roedd clo wedi'i osod ar ddrws yr ystafell driniaeth ac roedd arwyddion 'dim mynediad' er mwyn atal mynediad heb awdurdod tra bo'r peiriannau'n cael eu defnyddio. Gan nad oes angen allwedd i weithredu'r math hwn o beiriant IPL, byddem yn argymhell y dylai'r gwasanaeth sicrhau bod drws yr ystafell driniaeth ar gau bob amser.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth gadarnhau cyflwr a glendid cyfarpar amddiffyn y llygaid yn rheolaidd, yn unol â'i drefniadau atal a rheoli heintiau.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod drws yr ystafell driniaeth ar gau bob amser pan nad yw'n cael ei defnyddio.

#### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod ychydig o weithgareddau gwella ansawdd yn cael eu cynnal gan y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn gweithredu fel ffordd o nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Dywedwyd wrthym hefyd gan y rheolwr cofrestredig fod gan y gwasanaeth nifer o gleifion sydd wedi bod yn dod i'r gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd.

Byddem yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd, megis ailddechrau cynnal yr arolwg boddhad blynyddol, neu gynnal archwiliadau o arferion cadw cofnodion er mwyn gwella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yn barhaus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd.

### **Rheoli cofnodion**

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom dystiolaeth o arferion cadw cofnodion da. Roedd y cofnodion yn cael eu cwblhau mewn modd digon manwl, cyson a chlir, sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol o ran cynllunio a chofnodi triniaeth cleifion.

Nodwyd bod copïau caled o'r ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth o arferion rheoli ac arwain da ar ran y rheolwr cofrestredig, a oedd yn cael ei gefnogi gan dîm o staff ymroddedig.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau wrth wraidd y gwasanaeth, yn ogystal â strwythur rheoli clir. Fodd bynnag, byddem yn cynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig edrych dros y safonau a rheoliadau perthnasol eto.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Rejuva ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi pum gweithredwr IPL.

Roedd gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain, a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod yn ymwybodol ohonynt ac yn eu deall.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, gan gynnwys cyfarfod tîm bob wythnos a chyfarfodydd un i un ag aelodau o'r staff. Mae hyn yn helpu i sicrhau llinellau atebolrwydd clir, a bod pob aelod o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llwyr. Fodd bynnag, byddem yn argymhell y dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff cofnodion byr o bob cyfarfod eu hysgrifennu a'u cadw.

Gwelsom fod y gwasanaeth hefyd yn arddangos tystysgrif cofrestru AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol yn ardal gyhoeddus y dderbynfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth gadw cofnodion o bob cyfarfod tîm.

### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion hyd yma, ond disgrifiodd ddull priodol wrthym i gofnodi cwynion ffurfiol (yn ysgrifenedig ac ar lafar) a chwynion anffurfiol.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad ffurfiol bob blwyddyn sy'n galluogi'r rheolwr cofrestredig i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan y gweithredwyr laser awdurdodedig. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o arfarniadau cyflawn am nad oedd unrhyw ffeiliau staff unigol a chyflawn ar gael i ni eu gweld ar ddiwrnod yr arolygiad. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod arfarniadau a ffeiliau'r staff yn cael eu cadw a'u bod ar gael ar y safle bob amser.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod arfarniadau a ffeiliau'r staff yn cael eu cadw a'u bod ar gael ar y safle bob amser.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Gwelsom dystiolaeth bod gan yr holl weithredwyr IPL a gyflogir yn y gwasanaeth dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sy'n ofynnol er mwyn diogelu cleifion rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod tystysgrif DBS uwch gan y rheolwr cofrestredig, ond roedd y cyfnod adnewyddu gofynnol wedi mynd heibio, ac mae'n rhaid ei hadnewyddu cyn gynted â phosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth ei fod wedi cael tystysgrif DBS uwch i AGIC cyn gynted â phosibl.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Rejuva, Rhuddlan

### Dyddiad arolygu: 10 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r gwasanaeth lunio polisi cyson ar gyfer trin y cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011  Safon berthnasol:  9. Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion			
Rhaid i'r gwasanaeth gynnwys colofn yn ei gofrestr o driniaethau i gofnodi unrhyw effeithiau	8. Cynllunio a darparu gofal			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
andwyol neu ddigwyddiadau o ganlyniad i driniaeth.				
Rhaid i'r gwasanaeth naill ai ailddechrau cynnal yr arolwg boddhad blynyddol neu ddiweddarau'r canllaw i gleifion i egluro trefniadau ar gyfer rhoi adborth.	9. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth			
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod profion PAT a gwiriad o wifrau'r adeilad wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth roi tystysgrif diogelwch nwy newydd i AGIC.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff ei asesiad risg tân ei adolygu bob blwyddyn, gan gynnwys adolygu'r arwyddion tân ym mhob rhan o'r safle.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod hyfforddiant marsial tân wedi'i gwblhau.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth gynnal ymarferion tân bob</p>	<p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>12. Yr amgylchedd</p> <p>4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau</p>			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>chwe mis a chadw cofnod o'r rhain.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod cwrs cymorth cyntaf (llawn neu loywi) wedi'i gwblhau.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth adolygu cynnwys yr holl becynnau cymorth cyntaf ar y safle.</p>				
<p>Rhaid i'r gwasanaeth lunio cyfres o drefniadau ysgrifenedig penodol ar gyfer atal a rheoli heintiau (IPC).</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>			
<p>Rhaid i'r gwasanaeth roi cadarnhad i AGIC bod y peiriant IPC wedi cael ei wasanaethu ar ôl iddo gael ei gwblhau.</p>	<p>16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig</p>			
<p>Rhaid i'r gwasanaeth gadarnhau cyflwr a glendid cyfarpar amddiffyn y llygaid yn rheolaidd, yn unol â'i drefniadau atal a rheoli heintiau.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod drws yr ystafell driniaeth ar gau bob amser pan nad yw'n cael ei defnyddio.</p>	<p>7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol</p>			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r gwasanaeth ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd.	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd  21. Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd			
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Dylai'r gwasanaeth gadw cofnodion o bob cyfarfod tîm.	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd			
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod arfarniadau a ffeiliau'r staff yn cael eu cadw a'u bod ar gael ar y safle bob amser.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth ei fod wedi cael tystysgrif DBS uwch i AGIC cyn gynted â phosibl.	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gweithlu			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**